PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 6 RHAGFYR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Asghar Ali, Goddard, Jenkins, Kelloway a/ac Lent |

30 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ali Ahmed a'r Cynghorydd Joseph Carter.

31 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

32 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

33 : GWASANAETHAU BYW'N ANNIBYNNOL

Croesawodd y Cadeirydd Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymunedau a Thai, Isabelle Bignall, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cwsmeriaid, a Carolyne Palmer, Rheolwr Gweithredol Byw â Chymorth i'r cyfarfod.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad am y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol, ynghyd â manylion pellach am y Gwasanaethau Pryd ar Glud a Theleofal. Cafodd yr aelodau gyflwyniad hefyd am berfformiad mewn perthynas ag Addasiadau/Grant Cyfleusterau i'r Anabl, yn dilyn gostyngiad sylweddol yn 2016. Ar ôl hynny, croesawodd y Cadeirydd gwestiynau neu sylwadau gan yr Aelodau;

- Gofynnodd yr Aelodau sut roedd y cymunedau anodd eu cyrraedd yn cael eu targedu, a rhoddwyd gwybod iddynt fod Swyddogion yn mynychu grwpiau clwstwr Meddygon Teulu, Hybiau a grwpiau cymunedol er mwyn dangos yr hyn sydd ar gael iddynt.Roedd y Swyddogion yn cyfaddef ei bod yn anodd cyrraedd pawb. Fodd bynnag, roedd cynllun ar waith yn y 3/4 mis nesaf i osod stondinau mewn gwahanol ddigwyddiadau i gyrraedd cymunedau, ac mae Meddygon Teulu hefyd yn cyfeirio pobl at y Cynllun Cymorth Byw'n Annibynnol. Nodwyd bod rhai yn ofni cysylltu â'r gwasanaethau hyn rhag ofn iddynt gael eu cyfeirio at Ofal Cymdeithasol. Mae'n bwysig parhau i ledaenu'r neges nad dyna sy'n digwydd.

- Gofynnodd Aelodau a gysylltwyd â'r Ffederasiwn Tenantiaid, a rhoddwyd gwybod iddynt eu bod wedi cysylltu â nhw a bod y Cyngor wedi cynnal stondin yng Nghynhadledd y Ffederasiwn Tenantiaid yn ddiweddar.

- Gofynnodd Aelodau a oedd y llety llai dwys bob amser yn llawn. Dywedodd Swyddogion ei fod 88% llawn ar hyn o bryd a'i fod yn cael ei ddefnyddio gan gleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn ogystal â phobl yn symud allan o'u cartrefi er mwyn cynnal addasiadau. Ychwanegwyd bod rhai yn dewis peidio â defnyddio'r cyfleuster a bod gwaith i'w wneud o hyd i chwalu'r rhwystrau hyn.

- Gofynnodd Aelodau beth sy'n cael ei wneud i gyrraedd pobl yn y gymuned nad ydynt yn ymwybodol o ba fuddion sydd ar gael iddynt. Eglurodd Swyddogion fod yr holl swyddogion sy'n ymgysylltu â'r gymuned wedi cael hyfforddiant, a gall pobl sy'n dewis ymgysylltu fynd drwy'r broses wirio er mwyn cael y buddion. Nodwyd y gellir gwneud mwy o ran hysbysebu'r cymorth sydd ar gael. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol bellach wedi'i leoli yn yr Hybiau ac mae swyddogion hefyd yn ymwneud â'r Banciau Bwyd.

- Gofynnodd Aelodau pam wnaeth y gwasanaeth Pryd ar Glud ddod i ben yn flaenorol a dywedwyd wrthynt fod y gwasanaeth wedi bod yn rhan o'r pecyn Gwasanaethau Cymdeithasol yn draddodiadol. Newidiodd hyn pan ddaeth y ddeddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol newydd i rym ac nid oedd modd i'r awdurdod lleol dalu am ddarparu'r prydau. Penderfynwyd felly roi cynnig ar wasanaeth yr oedd yn rhaid talu amdano.

- Gofynnodd Aelodau a oedd pawb yn talu am y gwasanaeth neu a oedd unrhyw un yn gymwys i gael y gwasanaeth am ddim. Dywedodd Swyddogion nad oedd unrhyw ddarpariaeth am ddim, ond roedd elfen o gymorthdaliadau lle'r oedd pobl yn helpu i baratoi'r prydau.

- Gofynnodd Aelodau a oedd y gwasanaeth Pryd ar Glud yn cynnig bwyd ar gyfer anghenion deiet amrywiol a chawsant wybod bod y gwasanaeth yn darparu bwyd llysieuol, figan, heb glwten, ac ati, o fwydlen lawn. Y gobaith yw ehangu'r fwydlen hon ymhellach wrth i'r gronfa gwsmeriaid dyfu.

- Nododd Aelodau ystadegau'r gwasanaeth Teleofal; 4,500 o gwsmeriaid, 128,000 o alwadau ers mis Ebrill, 6,000 ohonynt wedi arwain at alw am ambiwlans. Gofynnodd yr Aelodau a oedd yr holl alwadau hynny ar gyfer y 4,500 o gwsmeriaid. Dywedodd Swyddogion bod hynny'n wir a bod y ffigurau'n gywir. Eglurodd Swyddogion bod rhai pobl erioed wedi cysylltu â nhw, bod rhai'n cysylltu yn aml iawn, ac roedd nifer o alwadau er sicrwydd hefyd. Ymwelir â'r bobl sy'n ffonio'n aml er mwyn edrych am bethau fel peryglon baglu, ac ati.

- Gofynnodd Aelodau am ddadansoddiad mwy manwl o'r ystadegau a chytunodd Swyddogion i'w roi iddynt.

- Ychwanegodd Swyddogion fod reswm am ddarparu'r gwasanaeth a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n dda. Byddai cyfradd uchaf y galwyr yn cael ei monitro a gall staff wneud cynnig am adolygiad rheoli achos. Yn aml iawn, bydd y gyfradd uchaf o alwyr yn cyfateb i niferoedd y gwasanaeth ambiwlans. Er bod y niferoedd yn uchel, roedd y swyddogion yn ystyried hyn yn dyst i wasanaeth da; roedd swyddogion yn falch o'r gwasanaeth gan ei fod yn cadw pobl yn

annibynnol yn hirach, allan o'r ysbyty yn hirach ac yn ysgafnhau'r baich ar y system mewn ffyrdd eraill.

- Cyfeiriodd Aelodau at gyllideb y Ganolfan Derbyn Larymau a gofynnodd yr Aelodau a oedd swyddogion yn hyderus o ran ffigurau'r incwm, gan mai'r targed ar gyfer diwedd y flwyddyn oedd £550k ac roeddynt ar hyn o bryd yn £238k. Eglurodd swyddogion fod modd iddynt gywiro'r diffyg o feysydd eraill felly bydd y ffigurau'n cydbwyso. Eglurodd y swyddogion ymhellach y bydd oedi o ychydig dros flwyddyn ar y targed hwnnw, a oedd yn barod yn darged uchelgeisiol. Fodd bynnag, maent yn cael mwy o ymweliadau bob dydd ac er y bydd yn cymryd blwyddyn arall i gyrraedd y targed, roeddynt yn ffyddiog y byddant yn ei gyrraedd ac yn medru ei gynnal. Croesawodd aelodau'r awgrym o ymweld â'r Ganolfan Derbyn Larymau.

- Roedd Aelodau'n falch o weld y gwelliannau i'r amser a gymerwyd i gynnal addasiadau.

- Gofynnodd Aelodau sut gafodd y fframwaith newydd a'r amserlenni eu sefydlu a rhoddwyd gwybod iddynt fod y gwaith a'r amser a gymerwyd i gynnal y gwaith yn y gorffennol wedi cael eu gwerthuso. Roedd ychydig o gymhlethdod o ran yr amser, megis contractwyr yn gorfod cysylltu ag unigolion er mwyn cael mynediad i'r eiddo, gorfod cysylltu â sefydliadau megis Dŵr Cymru, neu'r adran Gynllunio ar gyfer peth o'r gwaith.

Pennwyd targedau, gan roi ystyriaeth i'r elfennau hyn, ac nid oedd Swyddogion am osod targedau a fyddai'n methu.

- Cyfeiriodd Aelodau at achosion o unigolion yn teimlo bod yr amser a gymerwyd i wneud yr addasiadau wedi bod yn rhy hir a gofynnwyd a oedd unrhyw gwynion wedi dod i law ynghylch hyn. Dywedodd y Swyddogion fod yr amser yn amrywio a bod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl ac os bydd oedi yn digwydd, mae rhoi gwybod am hyn yn bwysig. Yn ogystal, mae cyfathrebu â chontractwyr yn allweddol ac mae'r broses hon wedi gwella yn y fframwaith newydd.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

34 : BRIFFIO AR BOLISÏAU GOSOD ADEILADAU UCHEL IAWN

Croesawodd y Cadeirydd Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cymunedau a Thai) ac Ellen Curtis (Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Landlordiaid) i'r cyfarfod.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad am Bolisïau Gosod Adeiladau Uchel Iawn ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Gofynnodd Aelodau beth sy'n cyfrif fel adeilad uchel iawn, a dywedwyd wrthynt mai adeilad sydd â mwy na 4 llawr ydyw. Mae blociau Caerdydd i gyd yn amrywio rhwng 9 a 14 llawr.

- Gofynnodd Aelodau a oedd unrhyw bryderon ynghylch perygl o dân yn y blociau ac a oedd angen cynnal unrhyw waith arnynt.

Eglurodd y Swyddogion nad oedd gan y blociau hyn yr un fath o gladin â Thŵr Grenfell, ond roedd pob bloc yn cael ei archwilio o ran rhwystrau tân a chwistrellwyr. Nid oedd unrhyw bryderon penodol.

- Nododd Aelodau bod 50% o fflatiau dwy ystafell wely yn ystâd Llwyncelyn yn yr Eglwys Newydd, a gofynnwyd a oedd unrhyw gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol cyffredinol neu mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â phlant. Dywedodd Swyddogion nad oedd unrhyw gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol cyffredinol nag yn gysylltiedig â phlant.

- Nododd Aelodau nad oedd y Cyngor yn y gorffennol wedi rhentu fflatiau i deuluoedd â phlant mewn adeiladau uchel iawn, ond ei fod wedi newid y polisi hwn ar sail cyngor cyfreithiol. Gofynnodd Aelodau am eglurhad pellach am hyn. Eglurodd Swyddogion fod y Polisi wedi cael ei lunio yn y gorffennol, ac wrth edrych ar y polisi, nid oeddynt yn medru gweld unrhyw reswm dros barhau i wneud hynny. Roeddynt wedi ceisio cyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr tai y Cyngor ei hun, a nodwyd hefyd nad oedd gan unrhyw awdurdod lleol arall bolisi o'r fath.

- Gofynnodd Aelodau a oedd ansawdd bywyd wedi'i gymryd i ystyriaeth. Dywedodd y Swyddogion nad oedd, yn syml, ddigon o dai, roedd yr adeiladau uchel iawn mewn lleoliadau da, yn agos at ysgolion, parciau a siopau.

- Nodwyd yr anawsterau o ran rhentu'r fflatiau hyn yn y gorffennol. Nododd y Swyddogion mai'r bobl ar frig y rhestrau aros oedd teuluoedd a phobl anabl; yn flaenorol roeddynt wedi gorfod mynd yn is i lawr y rhestrau aros i lenwi'r fflatiau. Bellach, roedd cymuned fwy amrywiol yn yr adeiladau uchel iawn.

- Gofynnodd Aelodau a oedd unrhyw ymgynghoriad wedi bod â'r bobl a oedd yn byw yn blociau hyn cyn i'r polisi newid. Eglurodd y Swyddogion nad oeddynt wedi gofyn iddynt ers hynny, ond nid oedd unrhyw faterion wedi dod i law.

- Gofynnodd Aelodau sut roedd y Swyddogion wedi mynd i'r afael â phryderon y bobl nad oedd yn gefnogol o'r newid yn y polisi. Nododd y swyddogion eu bod wedi ymdrin â'r problemau lle roedd hynny'n bosibl, er enghraifft, roeddynt yn cadw'r dwysedd plant dan 40%.

- Nododd Aelodau efallai y gallai teuluoedd gael mwy o blant wrth fyw yn y fflatiau a gofynnwyd sut y gellir monitro'r dwysedd o 40%. Dywedodd y Swyddogion fod y dwysedd ymhell dan 40% ar hyn o bryd, ond roeddynt yn defnyddio cofnodion Budd-dal Tai i fonitro hyn. Fodd bynnag, nodwyd na fyddai'r wybodaeth hon ar gael i'r Cyngor mwyach dan y system Credyd Cynhwysol.

- Gofynnodd Aelodau pryd gynhaliwyd yr asesiad risg diwethaf ar adeiladau uchel iawn. Eglurodd Swyddogion eu bod yn cael eu cynnal yn flynyddol gan y tîm cydymffurfio; mae'r gwasanaeth tân hefyd yn cynnal archwiliadau ac yn archwilio asesiadau'r Cyngor hefyd.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

35 : TAI CYNGOR GWAG – ADOLYGIAD 12 MIS

Croesawodd y Cadeirydd Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cymunedau a Thai) ac Ellen Curtis (Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Landlordiaid) i’r cyfarfod.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad am Dai Cyngor Gwag – Adolygiad 12 Mis, ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Roedd Aelodau’n falch o weld bod yr holl argymhellion gan adolygiad y Pwyllgor mewn perthynas â Thai Cyngor Gwag wedi cael eu gweithredu.

- Nododd Aelodau eu bod wedi gofyn am gynnal arolygiadau o denantiaid yn gadael eiddo o fewn 6 mis a gofynnwyd a oedd hyn wedi’i wneud. Dywedodd Swyddogion eu bod wedi edrych ar hyn, ac nid oedd unrhyw un yn gadael o fewn y cyfnod hwnnw. Roeddynt yn cynnal arolygiadau wrth i denantiaid adael ac roedd y rhain yn ddefnyddiol; roedd pobl yn gyffredinol yn fodlon, ond roedd rhai problemau wedi dod i law.

- Nododd Aelodau’r mater ynghylch symud i’r tri chontractwr, a gofynnwyd beth fyddai’n digwydd yn y cyfamser. Dywedodd swyddogion fod y contractwr presennol yn cwblhau'r gwaith ac nid oedd yn dechrau unrhyw waith newydd, felly cyn i’r contractwyr newydd ddechrau, roedd yn anochel y byddai gostyngiad yn y perfformiad o ran llenwi Tai Cyngor.

- Gofynnodd Aelodau beth oedd y prif resymau dros eiddo yn dod yn wag a dywedwyd wrthynt mai’r prif reswm oedd Marwolaethau (40%), yna pobl yn symud i gartrefi gofal neu i fyw â pherthnasoedd, ac yna pobl yn prynu eu cartrefi eu hunain.

- Gofynnodd Aelodau beth oedd y gost am rentu tŷ 2 neu 3 ystafell wely ar gyfartaledd, a dywedwyd wrthynt ei bod ychydig dan £100 yr wythnos.

- Gofynnodd Aelodau am ragor o wybodaeth am yr elfen gofal cwsmeriaid o’r contractau newydd a dywedwyd wrthynt fod manyleb gofal cwsmeriaid wedi’i chynnwys yn y contract newydd a oedd yn cynnwys elfennau megis contractwyr yn gwisgo dillad swyddogol, yn cario cardiau adnabod, yn cyfathrebu â thenantiaid ac yn gadael yr eiddo’n glan a thaclus ar ôl dod i ben â’r gwaith. Roedd hyn yn cynnwys mynd ag unrhyw rwbel neu sbwriel o’r eiddo.

- Gofynnodd Aelodau a oedd unrhyw waith wedi’i wneud o ran ail-lunio’r Weithdrefn Gwyno a datblygu fframwaith ar gyfer Materion Perfformiad. Dywedodd y Swyddogion bod y Weithdrefn Gwyno wedi cael ei hasesu a’i hadnewyddu. O ran perfformiad, roedd hyn wedi bod yn benodol iawn. Roedd Swyddogion wedi ceisio cyngor cyfreithiol preifat er mwyn sicrhau proses glir iawn a chadarn o ran cyflwyno dirwyon/didyniadau ariannol os nad oedd y gwaith yn cael ei gynnal/cyflawni.

- Nododd Aelodau'r cyfnod o 65 diwrnod i osod cartref parhaol ac roeddynt yn ystyried hyn yn amser hir.Gofynnodd Aelodau am rai enghreifftiau o’r gwaith mawr yr ymgymerwyd ag e yn y cyfnod hwn. Eglurodd Swyddogion fod nifer o denantiaid wedi bod yn breswylwyr am nifer o flynyddoedd cyn iddynt ddod yn wag. Nid yw nifer o denantiaid yn dymuno diweddaru eu ceginau na’u hystafelloedd ymolchi ac ati, gan nad ydynt am gael eu tarfu. Pan fydd eiddo’n dod yn wag, ymgymerir â gwaith fel hyn ac mae eiddo yn cael eu diweddaru er mwyn bodloni safonau SATC, sy’n cynnwys cael gwared ag asbestos, lefelu gerddi, ac ati. Fodd bynnag, nodwyd bod 25% o'r eiddo yn cael eu diweddaru'n gyflym a bod eiddo bob amser yn cael eu cadw'n diogel, hyd yn oed os nad ydynt wedi cael eu moderneiddio.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

36 : BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau bod yr adroddiad yn nodi crynodeb o fusnes y Pwyllgor ers mis Medi 2017, a oedd yn cynnwys y diweddaraf am y Gohebiaeth a anfonwyd a derbyniwyd, y diweddaraf am Raglen Waith 2017/18, y diweddaraf am yr ymchwiliad ar y cyd i Gyffuriau a Throseddau â Chyllyll yng Nghaerdydd; a'r diweddaraf gan Banel Perfformiad y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: nodi’r adroddiad.

37 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu’r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion yn cael ei gynnal am 4.30pm ar 17 Ionawr 2018.